# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL** | | **VOLUNTARY SECTOR LIAISON COMMITTEE** |
| **DYDD GWENER, 15 IONAWR 2016 am 2.00 o'r gloch** | | **FRIDAY, 15 JANUARY 2016 at 2.00 pm** |
| **NEUADD Y PENTREF, PENYSARN** | | **VILLAGE HALL, PENYSARN** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Cynghorwyr/Councillors Jim Evans, Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol/Portfolio Member for Social Services), Alun Mummery, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams

**SECTOR GWIRFODDOL / VOLUNTARY SECTOR**

Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans)
Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)
Eleri Lloyd Jones (Age Cymru)
Mrs Margaret Roberts (Llywydd/President of Merched y Wawr)

**IECHYD / HEALTH**

Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Partneriaeth Cymunedol, BIPBC/Assistant Director of Community Development, BCUHB

# R H A G L E N

1 **DATGAN DIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, er cadarnhad, cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2015.

**Materion yn codi ohonynt a diweddariadau:-**

1. **Côd Ymarfer ac Ymrwymiadau Ariannu**
2. **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant**
3. **Gallu a Gwytnwch y Trydydd Sector**

3 **CYLLIDEB 2016/17**

Ystyried cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2016-17 fel y'u hamlinellir yn y Ddogfen Cwrdd â'r Heriau - Ymgynghori ar Gyllideb 2016-17.

Dogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor:-

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/p/v/n/Consultation-Document_201617_Cymraeg.pdf

4 **LLEISIAU LLEOL**

Derbyn diweddariad gan Medrwn Môn.

5 **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Rhagfyr, 2015.

6 **CYNLLUN DATBLYGU - COMPACT**

Derbyn diweddariad gan y Prif Swyddog ar y Cyd, Medrwn Môn.

# PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2015**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Islwyn Humphreys (Cadeirydd) |
| | **Awdurdod Lleol** |
| | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)<br>Y Cynghorydd Alun Mummery<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| | **Y Sector Gwirfoddol** |
| | Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)<br>Ms Eleri Lloyd Jones (Age Cymru – Gwynedd a Môn) |
| **WRTH LAW:** | Mrs Gwen Carrington (Cyfarwyddwr Cymuned)<br>Mr J Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)<br>Mr John R Jones (Prif Swyddog, Medrwn Môn)<br>Ms Lyndsey Williams (Lleisiau Lleol – Medrwn Môn)<br>Ms Sian Purcell (Medrwn Môn)<br>Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Alwyn Rowlands<br>Margaret Roberts (Merched y Wawr)<br>Wyn Thomas (BIPBC) |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r cyfarfod fel yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai.

## 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2015 fel rhai cywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

**Eitem 4 –** O ran trefniadau ymgysylltu a'r gwaith a wnaed yn Ward Seiriol, adroddodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn, nad yw Lesley Griffiths, y Gweinidog dros Gymunedau a

Threchu Thlodi yn medru ymweld â Ward Seiriol ar 5ed Tachwedd fel y cynlluniwyd. Dywedodd ei bod yn awyddus iawn i aildrefnu ei hymweliad yn ddiweddarach.

**Eitem 5(a) – Adolygiad o'r Trydydd Sector – Adroddiad Terfynol**

Nododd y Cyfarwyddwr Cymuned y byddai statws yr adroddiad drafft yn cael ei newid o ddrafft i derfynol ac y byddai dwy elfen i'w hystyried, sef: -

1. Sicrhau bod camau gweithredu yn yr adroddiad terfynol yn cael sylw.
2. Sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chadw'n gyfoes ac y rhennir gwybodaeth.

**Eitem 5(a) 1. Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor**

Mewn perthynas â'r cyfarfodydd, gofynnodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am farn y Pwyllgor ynghylch a ddylid newid y trefniadau presennol o gynnal tri chyfarfod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD bod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn parhau i gynnal cyfarfodydd deirgwaith y flwyddyn.**

**Enwebu Aelod Arweiniol**

**Eitem 5(a) 3. Enwebu Aelod Arweiniol**

Cynghorodd Arweinydd y Cyngor bod yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn cael ei enwebu'n Aelod Arweiniol.

**Eitem 7 – Trefniadau Caffael y Cyngor**

Adroddodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn, y byddai sesiwn briffio i gefnogi'r Trydydd Sector, yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd.

**3 CYNLLUNIO'R GYLLIDEB 2016/17**

(a) Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad ar y broses o osod y gyllideb a'r rhaglen arbedion a dywedodd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal cyfres o weithdai Aelodau i ystyried sut dylid mynd i'r afael â bwlch ariannu o 5.7 miliwn ar gyfer 2016/17. Ar ben hynny, byddai'r Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod ar 9fed Tachwedd i ystyried cynigion y gyllideb a byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd yn ystod mis Tachwedd / Rhagfyr 2016, a byddai'r Sector Gwirfoddol yn cael ei friffio.

Yn deillio o'r drafodaeth yng nghyd-destun cyllidebau llai wrth fynd ymlaen, nodwyd bod lle i Medrwn Môn drafod cyfleoedd ariannu drwy'r Ymddiriedolaeth Elusennol. Dywedodd Prif Swyddog Medrwn Môn y byddai hyn yn cael ei ystyried gan y Trydydd Sector.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 4 CÔD YMARFER CYLLIDO A RHWYMEDIGAETHAU

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cymuned ddiweddariad yn dilyn y gweithdy ar y cyd a gynhaliwyd ar 1af Hydref. Bu croeso mawr i'r gweithdy hwn gan y 3ydd sector fel sail ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol: -

- Angen annog arfer cyson gan swyddogion y Cyngor a'r sector gwirfoddol er
- mwyn sicrhau bod y fframwaith yn cael ei weithredu;
- Angen gwybodaeth amserol ynglŷn â blaenoriaethau'r Cyngor a'r goblygiadau ar
- gyfer comisiynu a chyllidebau;
- Cyfleoedd pellach am ddysgu a chefnogaeth ar y cyd gan sefydliadau, e.e.
- "Canolfan Cydweithredol Cymru";
- Y sgôp i wasanaethau caffael y Cyngor ddarparu canllaw ar drefniadau caffael y
- Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn am adborth gan Medrwn Môn ar y ddogfen ddrafft cyn iddi gael ei chadarnhau gan y Pwyllgor hwn ac mewn adolygiadau blynyddol dilynol.**

## 5 BUDD CYMUNEDOL

Cyfeiriodd y Prif Swyddog, Medrwn Môn, at yr adroddiad ar Fuddion Cymunedol sy'n deillio o'r prosiect Wylfa Newydd a baratowyd gan yr Adran Datblygu Economaidd ym mis Chwefror, 2014, a gwnaeth gais i'r Pwyllgor hwn gael derbyn gwybodaeth maes o law ar y gwaith a wnaed fel rhan o'r Prosiect Lleisiau Lleol yng ngogledd Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 6 Y DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned ar ddarpariaeth gwybodaeth gan asiantaethau allweddol a chyfleoedd hyfforddi cyn y daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.

Cyfeiriwyd yn benodol at y trefniadau ar draws Gogledd Cymru a gwybodaeth allweddol ar wefan Cyngor Gofal Cymru.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 7 GALLU A GWYDNWCH Y SECTOR TRYDYDD

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cymuned at adroddiad gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys ar Allu a Gwydnwch y Trydydd Sector ym Mhowys. Cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Cymuned a chynrychiolwyr o Medrwn Môn yn cyfarfod i ymchwilio i fanteision cynnal ymarfer tebyg ar Ynys Môn.

Dywedodd Ms Lyndsey Williams, Prosiect Lleisiau Lleol y byddai sesiwn hyfforddi ar Ddysgu a Gweithredu ar y Cyd yn cael ei chynnal ar 3 Tachwedd, 2015 yng Ngwesty

Carreg Bran, Llanfairpwll mewn cysylltiad â'r gwaith a wnaed yn Ward Seiriol i wreiddio ymgysylltu â'r gymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 8 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Hydref, 2015 i Fai, 2016 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Medi, 2015.

Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd at Raglenni Gwaith y ddau Bwyllgor Craffu a gwaith parhaus gyda Medrwn Môn i ddefnyddio'r prosiect Lleisiau Lleol i lywio trafodaethau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9 PRIF WEINIDOG I SEFYDLU TASGLU FFOADURIAID SYRIA

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn ar waith y Tasglu Ffoaduriaid a sefydlwyd gan y Prif Weinidog.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a disgwyl am ragor o wybodaeth maes o law.**

## 10 CYFARFOD NESAF

**PENDERFYNWYD y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn yn cael ei gynnal yn Neuadd Bentref Penysarn ar 15 Ionawr, 2016.**

**Cyn dod â'r cyfarfod i ben, cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad Mrs Gwen Carrington yn fuan a dymunodd gofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor a diolch iddi am ei chefnogaeth a'i chyfraniad at waith y Pwyllgor hwn.**

**Mr Islwyn Humphreys**
**Cadeirydd**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **14 Rhagfyr 2015** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ionawr - Awst 2016;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| - |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydyw. |

| DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ionawr – Awst 2016. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

* *Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 8

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Ionawr - Awst 2016** ar y tudalennau dilynol.

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **IONAWR 2016** | | | | | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |
| 2 | **Polisi Rhyddhad Newydd rhag y Dreth Fusnes i Elusennau a Sefydliadau nad ydynt yn gwneud Elw 2016/17**<br><br>Pennu polisi. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn manylu'r gefnogaeth o ran rhyddhad rhag y dreth fusnes i elusennau a sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |
| 3 | **Strategaeth a Pholisi Caffael**<br><br>Adroddiad ar gynnydd. | Gofynnwyd am yr adroddiad yma ar gynnydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Ebrill 2015. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Adran Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Cynllun Busnes 30 mlynedd (S)**<br><br>Cymeradwyaeth. | Penderfyniad i'w wneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn. Mae'r CRT yn ddogfen statudol. Cymeradwyaeth cyn cyflwyno'r cynllun busnes i Lywodraeth Cymru. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |
| 5 | **Llawr y Dref, Llangefni – Achos Busnes (S)** | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith Llawn gan ei fod yn benderfyniad strategol a thrawsnewidiol sy'n cael effaith ar ddyfodol Llawr y Dref, Llangefni. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |
| 6 | **Moderneiddio Ysgolion – Achos Amlinellol Strategol / Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Bro Rhosyr a Bro Aberffraw**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Achos Busnes i Lywodraeth Cymru. | Dysgu Gydol Oes | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Adran Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | **Parc Sglefrio Llangefni – Cytundeb ar gyfer Prydlesu Tir**<br><br>Cytuno i brydlesu tir am 25 mlynedd ar raddfa rhad. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan ei fod yn mynd yn groes i bolisi. | Datblygu Cynaliadwy | Dylan Williams<br>Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2016 | |
| | | | | **CHWEFROR 2016** | | | |
| 8 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | |
| 9 | **Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr**<br><br>Cymeradwyaeth. | Gofynnir am gymeradwyaeth y pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety i Lywodraeth Cymru. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | |
| 10 | **Taliadau Rhent ac am Wasanaethau i Denantiaid Tai Cyngor 2016-2017** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod rhan o Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ac yn ddyletswydd statudol i gytuno lefelau rhent a thaliadau | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | |

Tudalen 11

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Adran Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau blynyddol. Angen rhag-rybudd o 4 wythnos cyn y daw yn weithredol ym mis Ebrill 2016. | | | | | |
| 11 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelleodd**<br><br>Penderfynu ar restr fer o opsiynau ar gyfer ymgynghori ffurfiol | Gofynnir am benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith am y rhestr fer o opsiynau sydd i'w hymgynghori'n statudol arnynt erbyn Medi 2016. | Dysgu Gydol Oes | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 1 Chwefror 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | |
| 12 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Diwylliant**<br><br>Penderfynu ar yr opsiynau i weithredu arnynt yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a datganiadau diddordeb | Gofynnir am benderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith am yr opsiynau ffafredig i weithredu arnynyt yn Cam 2 y rhaglen trawsnewid (o Ebrill 2016). | Dysgu Gydol Oes | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 2 Chwefror 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | |
| 13 | **Trawsnewid y Gwasanaeth Ieuenctid**<br><br>Penderfynu ar yr opsiwn ffafriedig i weithredu arno yn dilyn adolygiad ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn. | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith am gytundeb a penderfyniad am yr opsiwn ffafriedig, a strwythur a natur y gwasanaeth o Ebrill 2017 ymlaen. | Dysgu Gydol Oes | Delyth Molyneux<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | 2 Chwefror 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | |



*  *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Polisi Trwyddedu**<br><br>Cymeradwyo'r polisi. | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad y Pwyllgor Gwaith er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Datblygu Cynaliadwy | Jim Woodcock<br>Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>8 Chwefror 2016 | 10 Mawrth 2016 |
| | | | | **MAWRTH 2016** | | | |
| 15 | **Cyllideb 2016/17 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br>Cyng Hywel Eifion Jones | 1 Chwefror 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>7 Mawrth 2016 | 10 Mawrth 2016 |
| 16 | **Premiymau'r Dreth Gyngor ar gyfer Ail Gartrefi ac Eiddo sy'n wag am Dymor Hir**<br><br>Argymell i'r Cyngor llawn lefel y premiymau y dylid eu mabwysiadu o Ebrill 2017. | Mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymehlliad i'r Cyngor llawn fel rhan o fframwaith y Gyllideb a'r fframwaith Gosod y Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>7 Mawrth 2016 | 10 Mawrth 2016 |
| 17 | **Cais i Atal yr Hawl i Brynu** | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>7 Mawrth 2016 | |

Tudalen 13

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Adran Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Mawrth 2016 | |
| 19 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2015/16 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Scott Rowley<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br>Cyng Alwyn Rowlands | 14 Mawrth 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Mawrth 2016 | |
| 20 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2015/16 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 14 Mawrth 2016 | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Mawrth 2016 | |
| 21 | **Polisi Taliadau tai Dewisol 2016/17**<br><br>Adroddiad ar weithrediad y polisi yn 2015/16 ac unrhyw newidiadau i'w hargymell – pennu polisi. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan Pwyllgor Gwaith er mwyn manylu'r gefnogaeth ychwanegol at gostau tai i rai hawlwyr budd-dal. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Mawrth 2016 | |

Tudalen 14

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | **Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2016-2019** | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn cyn cyflwyno'r Cynllun Comisiynu i Lywodraeth Cymru. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Mawrth 2016 | |
| 23 | **Polisi Dyrannu Cyffredin**<br>Mabwysiadu'r polisi terfynol yn dilyn ymgynghoriad. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn ymwneud â pholisi sy'n allweddol i'r Cyngor. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth y Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Aled Morris Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Mawrth 2016 | |
| | | | | **EBRILL 2016** | | | |
| 24 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2016 | |
| | | | | **MAI 2016** | | | |
| 25 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mai 2016 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ionawr - Awst 2016

Diweddarwyd 07.12.15

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **MEHEFIN 2016** | | | | | | | |
| 26 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Mehefin 2016 | |
| **GORFFENNAF 2016** | | | | | | | |
| 27 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>.. Gorffennaf 2016 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG – Er gwybodaeth*